
LLEWYRCHED FELLY EICH GOLEUNI

# Y Llusern

Eglwys Ebeneser Medi / Hydref 2025 Cyfrol 96 Rhif 5



***"Tra mae'r byd yn bod, bydd amser i blannu a chasglu'r cynhaeaf; bydd tywydd oer a thywydd poeth, haf a gaeaf, nos a dydd."***

**Genesis 8, adnod 22 beibl.net**

**NEWYDDION**

## Elusen 2024–25 a 2025-2026

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o Fedi i Awst, cynhaliwyd nifer o weithgareddau hwyliog er mwyn codi arian tuag at Hosbis y Ddinas a Marie Curie. O Fyfyrdodau Malcolm, i greu torchau Nadolig, o werthu marmalêd a phicls i noson gyri, o noson sgityls, i wledd yn Y Dosbarth. Codwyd dros £4,000 tuag at yr achoson teilwng hyn, sy'n gwneud cymaint o waith gwych o fewn ein cymuned.

Dewiswyd y Samariaid fel elusen Ebeneser ar gyfer y flwyddyn nesaf. Gwnaed casgliad yn yr oedfa undebol, 24ain o Awst, a chodwyd £304 er budd yr elusen. Cychwyn da i'r gronfa newydd. Edrychwn ymlaen at flwyddyn arall o weithgareddau i godi cymaint â phosib at y Samariaid.

## Llongyfarchiadau...

...hwyr i Mair Robins ar ei phenblwydd yn 80 oed ar 22ain o Ebrill. Roedd wrth ei bodd pan ganwyd Penblwydd Hapus iddi ar y ffordd adref o'r pererindod, ddydd Sul, 14eg o Fedi.

...twymgalon i Malcolm a Jean Thomas ar ddathlu 65 mlynedd o briodas, sef priodas Saffir Las. Fe'u priodwyd yn Eglwys Annibynol Bethesda, Tymbl ar 6ed o Awst, 1960.

...i Hywel a Milla Ling-Davies ar enedigaeth Mabli Jane ar 11eg o Awst. Llongyfarchiadau i mamgu a thadcu, Wyn a Nora Davies.




...i Catrin Roberts ar ddathlu ei phenblwydd yn 70 oed ar 3ydd o Awst.

...i Mair Hughes ar ddathlu ei phenblwydd yn 95 oed ar 3ydd o Fedi.

...i Ifan a Catrin Roberts ar ddathlu priodas aur ar 20fed o Fedi.

## Oedfa Undebol

Braint oedd cael croesawu Dr. Rhiannon Lloyd, Llandudno i'n plith ar 24ain o Awst, a hefyd aelodau eglwysi Cymraeg canol Caerdydd. Testun y bore oedd 'Maddeuant' a goleuni yn nhywyllwch ein byd ni, ac yn y pnawn soniodd am ei gyrfa a'r hyn a welodd dros y blynyddoedd, rhwng llwythi a fu'n elynion a'r gwaith a wnaed arweiniodd at gymod. Diolch am y negeseuon cryf a heriol.

**Criw CSE a'r Gorlan Glyd**

Ar nos Fercher, 3ydd o Fedi aethom fel criw i fwynhau pryd efo'n gilydd yn Pizzeria Villaggio, yr Eglwys Newydd ar ddechrau tymor newydd. Cawsom noson hwyliog, gyda chwis byr a gwobr i'r un sydd wastad ar amser ac yn mynd ati'n frwd i olchi llestri.

Ifan Roberts ydy hwnnw.






**Oedfa Gomisiwn Elinor**

Ar nos Fercher 24ain o Fedi am 7.00pm, cafodd Elinor Wyn Reynolds ei chomisiynu yn Ysgrifennydd Cyffredinol newydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Cynhaliwyd yr oedfa yng nghapel y Priordy, Caerfyrddin. Darparwyd lluniaeth i ddilyn yn y festri. Cafodd yr oedfa ei ffrydio'n fyw ar wefan annibynwyr.cymru.

**Bytholwyrdd**

Ar fore dydd Gwener yr 29ain o Awst aeth criw Bytholwyrdd ar y trên i'r Fenni. Cafwyd cyfle i ymweld â'r farchnad yng nghanol y dref, roedd yno stondinau amrywiol yn gwerthu cynnyrch cartref. Yna bu pawb yng ngwesty'r Angel am ginio a sgwrs. Cafwyd diwrnod difyr yn cymdeithasu! Diolch i Enfys a Lis am drefnu.

**Y Gornel Glyd**

Rydym yn chwilio am ragor o wirfoddolwyr i helpu gyda'r gwaith hwn. Os yr hoffech helpu ar bnawn Mercher neu bnawn Sul cysylltwch gyda John Hayes, john_hayes1@hotmail.com.

**Wel, beth am ymuno â CSE?**

(Casglwyr Sbwriel Ebeneser.) Mae CSE yn cwrdd unwaith y mis am 10.00 ar fore Sadwrn.  Mae'r codi sbwriel yn para rhyw 45 munud ac yna mae cyfle i gymdeithasu dros baned neu ddisgled mewn caffi cyfagos. Os oes diddordeb gyda chi mewn ymuno â'r tîm a grŵp whatsapp CSE, cysylltwch â John Hayes, john_hayes1@hotmail.com.

Mae croeso i bawb!

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn yn fawr iawn gyda Joy Dyer a'r teulu yn eu profedigaeth. Bu farw brawd Joy yn ddiweddar ac mae hiraeth dirfawr ar ei ôl.

**Cwrdd Gweddi**

Ar nos Lun 23ain o Fedi daeth Gwilym Jeffs atom i rannu am waith Angor a gweledigaeth y tîm yn ystod y misoedd nesaf. Maent yn canolbwyntio ar 4 peth. 1. Gwneud disgyblion. 2. Cyrraedd pobl newydd. 3. Cyrraedd myfyrwyr. Mae 4 mil o fyfyrwyr yng Nghaerdydd sy'n siarad Cymraeg. 4. Annog arweinyddion newydd. Dyma destun gweddi. Gweddïo hefyd dros Wlad yr Iorddonen lle mae erlid yn digwydd. Diolch i Gwilym.

**Penblwydd Hapus...**

**...**arbennig iawn i Mair Evans, Maesglas yn 103 oed ar 1af o Hydref.

**Blwch Gweddi a WhatsApp Cwrdd Gweddi**

Mae bocs ym mhob oedfa er mwyn i chi nodi unrhyw destun gweddi sydd ar eich meddwl.

Os hoffech fod ar grŵp Whatsap gweddi Ebeneser rhowch wybod i Alun.

**Cyfieithu**

Rydym wedi prynu cyfarpar cyfieithu newydd i'w defnyddio yn yr oedfaon. Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr i gyfieithu ar y pryd. Rhowch

---

## 10 Hen Ddywediad

1. Gwna dda ni waeth i bwy.
2. Nid oes dŷ heb ei gyfrinach.
3. Allwedd tlodi, seguryd.
4. A wnel dwyll a dwyllir.
5. Nid twyll twyllo twyllwr.
6. Po tynaf fo'r llinyn cyntaf y tyr.
7. Cyfaill blaidd bugail drwg.
8. Dadleu mawr yn nghylch cynffon llygoden.
9. Digrif gan bob aderyn ei lais ei hun.
10. Dyled ar bawb ei addewid.

***Allan o 'Llyfr Pawb ar bob-peth' (Hughes a'i Fab, Wrecsam, 1877)***

# LlanLlanast

# LLANLLANAST

**Gweithgarwch i Blant Cynradd**

Crefftau, gemau, hwyl, stori o'r Beibl a bwyd



**Canolfan yr Eglwys Newydd**

**10:00 Dydd Sul 19 Hydref – Diolch am iechyd**

**10:00 Dydd Sul 16 Tachwedd – Diolch am fwyd a diod**

**10:00 Dydd Sul 21 Rhagfyr – Diolch am Iesu**

**Croeso i deuluoedd newydd**

**Beth yw Agor y Llyfr?**

Mae Agor y Llyfr yn fenter a drefnir gan Gymdeithas y Beibl lle mae gwirfoddolwyr o eglwysi lleol yn cyflwyno hanesion o'r Beibl mewn ysgolion cynradd drwy gyflwyniadau dramatig, myfyrdodau, a gweddi syml. Mae'n broses syml ac yn hwyl i'w chyflawni, heb fod angen unrhyw actorion proffesiynol. Mae'r dull hwn yn effeithiol iawn wrth gyfleu neges y Beibl. Os hoffech wirfoddoli neu gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag Alun Tudur ar aluntudur@btinternet.com neu catrin.e.rob@btinternet.com.

---

**Sul y Sanau: Hydref 12fed, 2025**





**Cynhelir trydydd Sul y Sanau ar 12fed o Hydref.**

**Bydd bwced wedi'i osod yng nghyntedd Canolfan yr Eglwys Newydd ac yn yr Eglwys Fethodistaidd ar gyfer eich cyfraniadau ar y Sul hwn.**

---

**Cyfraniadau i'r Llusern.**

Os oes rhywbeth hoffech chi ei weld yn Y Llusern neu os oes ganddoch chi gyfraniad ar gyfer Y Llusern, e.e. hoff emyn a pham neu hoff adnod a pham, cysylltwch ag un o'r tîm golgyddol, Alun, Petra, Janette neu Tudur.



Fe fu Vikki a finnau am ychydig ddyddiau ar ddiwedd mis Awst yn ninas fawr Llundain. Byddwn yn hoff o fynd yno oherwydd yr amrywiaeth, gweithgareddau a golygfeydd. Mae pethau newydd i'w gweld ar bob tro. Ymhlith pethau eraill, buom yn addoli yn Castle Street; edrych ar adeiladau mawreddog y ddinas, o do 120 Fenchurch Street; Gyrcin, Y Shard, Walkie Talkie, San Steffan, a'r London Eye yn llygadu'r ddinas ar lan yr Afon Tafwys. Buom yn talu gwrogaeth i Catrin Glyndŵr, trwy ymweld â'r gofeb sydd iddi mewn cilfach ddinod yn Salters Court oddi ar Canon Street, cyn mynd i gopa Bryn Briallu.

Aethom ar y Northen Line ddu i fyny i Camden. Cwmwd yw hwn lle mae cymysgfa ryfeddol o ddiwylliannau yn cyd-gyfarfod, gan lenwi'r palmentydd gyda llif o bobl. Ceir arogleuon Murg Kari a mwg drwg yn sawru'r aer. Gwahoddir fforddolion i gyfrannu punt er mwyn meddwi'r "pync" a chlywir llais efengylydd yn galw ar y torfeydd i gredu yn Iesu. Hwn yw un o'r llefydd mwyaf unigryw ac amgen ei natur yng ngwledydd Prydain, fe gredaf.

## Camden Town

Wrth adael tywyllwch gorsaf danddaearol Camden i oleuni'r stryd uwchben, cyfarchodd gŵr mawr o dras Affricanaidd fi yn llon. "You've dropped something", meddai. Edrychais i lawr a dywedodd, "It's your smile." Wel, dyna un ffordd o dynnu sylw. Gweithio yr oedd i elusen sy'n ceisio atal pobl ifanc rhag cario cyllyll. Y mae trywanu'n broblem fawr yn Llundain a nifer gynyddol o ieuenctid yn cario cyllyll fel rhan o'u delwedd. Dangosodd y creithiau oedd ganddo ar ei wyneb o ganlyniad i ymosodiadau. Siaradai'r gŵr ifanc fel melin bupur, yn fân ac yn fuan, gydag acen gref a geirfa ei ddiwylliant a'i genhedlaeth. Yr oedd y gwaith a gyflawnai'r elusen yn rhagorol. Buom yn sgwrsio am rai munudau. Wrth wrando sylweddolais, ynghanol y cwbl, nad oeddwn ond yn deall hanner yr hyn a ddywedai ac ar ben hynny, nid oedd ef ychwaith yn gyfarwydd â Saesneg oedd ag acen drom Gwynedd. George Bernard Shaw ddywedodd "England and America are two countries

separated by a common language”. Os gwir hynny am ddwy genedl, roedd yn wir am y sgwrs rhyngom yn Camden Town y dydd hwnnw. Nid oedd bai ar yr un ohonom. Roedd y diffyg deall yn deillio o’r ffaith ein bod o ddiwylliannau a chefndiroedd gwahanol.




## Annealladwy

Mor bwysig yw gallu cyfathrebu’n glir a mynegi ein hunan yn ddealladwy i eraill. Cwestiwn gyfyd heddiw yw, a ydym ni fel Cristnogion Cymraeg ein hiaith, yn cyfathrebu’n ddealladwy gyda phobl eraill o du allan i’n cylch Cristnogol, yn enwedig y genhedlaeth iau? Neu a ydym ni yn euog o greu ghetto Cristnogol caeedig sydd wedi datblygu ein hieithwedd a’n geirfa fewnol ein hunain? Ac o ganlyniad nid yw pobl yn deall yr hyn a ddywedwn.

## Dwy Her

Teimlaf bod o leiaf ddwy her ieithyddol yn codi ar hyn o bryd. 1. Nid yw geiriau a thermau Cristnogol yn ddealladwy i bobl nad ydynt yn Gristnogion. I’r gymdeithas seciwlar gyfoes y mae geiriau fel Efengyl, addoli, iachawdwriaeth, gras, pechod, Gwaredwr, sancteiddrwydd, duwioldeb, ayb yn ddi-ystyr. Golyga hyn fod yn rhaid inni esbonio ein hunain mewn dull symlach, ac yna, os bydd pobl yn ymateb i’r newyddion da, rhaid eu haddysgu yn y ffydd. “Gwenwch ddisgyblion” oedd gorchymyn yr Iesu. Felly, ar ôl i ni gredu ynddo (a chyn hynny mewn gwirionedd) y mae proses o addysgu yn digwydd. 2. Yr ail her yw bod yr iaith Gymraeg yn newid, fel mae wedi gwneud erioed. Ond efallai bod y newid yn digwydd yn gynt yn y cyfnod hwn nag y bu. Un elfen o hyn yw ei bod yn raddol yn cael ei Seisnigo. Mae hyn yn peri loes inni, ond rhaid wynebu’r her. Mae wedi mynd yn arfer cyffredin i ddefnyddio mwy a mwy o eiriau Saesneg. Problem dwyieithrwydd yw mai’r iaith fwyafrifol sy’n flaenaf. Ond ble mae’r ffin lle mae’r iaith Gymraeg yn peidio â bod, gan fod cymaint o ddylanwadau Saesneg arni? Y peth pwysig yw’r dystiolaeth Gristnogol, gwyddom hynny. Ond mae Duw wedi ein creu a’n mabwysiadu fel Cymry Cymraeg ac yn galw ar rai ohonom i dystio i’r diwylliant hwnnw yn bennaf. Mae’n sefyllfa ddyrus ac amlochrog.

So, mae rîli’n bryd i ni newid yn lingustically er mwyn dangos pa mor ffantastic yw Iesu. Mae yn berson rîli ymezing sydd wedi marw dros ein sins oherwydd ei fod yn ein lyfio ni gymaint.

Mae hynny mor cŵl. Ond os bydd hyn yn hapno fe ddaw point lle we might as well do everything yn Saesneg. Because everyone understands English. Init.

Trafodwch!

**Alun Tudur**

O.N. Yn hyn i gyd rhaid cofio bod yr Ysbryd Glân ar waith yn cyflawni bwriad Duw yn ein plith.

---

## Pererindod Ebeneser
## Trefeca a Chapel y Plough, Aberhonddu

Pererindota i un o leoliadau tawelaf Cymru, sy'n gysylltiedig â Christnogaeth a wnaeth ugain o gynulleidfa Ebeneser ar ddydd Sul, 14 Medi. Gadael yr Eglwys Newydd yn gynnar a theithio drwy niwl a glaw draw i Goleg Drefeca, gan gyrraedd i groeso cynnes a phaned a danteithion cartref cyn ymneilltuo am oedfa. Gan i'r capel gwreiddiol gael ei dynnu i lawr rai blynyddoedd yn ôl, neuadd aml-bwrpas a chyffyrddus o fewn y coleg a ddefnyddir ar gyfer cyfarfodydd bellach.



Testun oedfa a luniwyd gan Alun oedd ymdawelu ym mhresenoldeb Duw. Priodol felly oedd canu, 'Distewch, cans mae presenoldeb Crist' a chyd-ddarllen Salm 46. Seiliodd Alun ei fyfyrdod ar ddwy adnod o'r Salm sy'n ein hannog i ymdawelu ac i wybod bod Duw gyda ni ac yn gaer i ni. Bendith arall oedd gweddi Thomas à Kempis sy'n ein hatgoffa mae presenoldeb yr Arglwydd sy'n ein bodloni a'n llawenhau fel y gallom orfoleddu ynddo.

Wedi'r oedfa traddodwyd hanes Trefeca yn ddifyr gan y warden presennol, y Parch Wayne Adams. Y disgwyliad oedd sgwrs am Howell Harris a chychwyniadau'r Coleg Diwinyddol. Ond aeth Wayne â ni'n ôl i'r chweched ganrif gan sôn am Santes Eluned, un o ferched Brychan Brycheiniog, a'i ffynnon nepell o'r coleg. Er ein bod yn gyfarwydd â

dweud Coleg Trefeca, rhaid nodi na fu'r sefydliad yn Goleg Diwinyddol ers 1964. Erbyn heddiw mae dyfodol y Coleg, sy'n eiddo Eglwys Bresbyteraidd Cymru, yn ansicr. Ond fel y nododd Wayne, gan na fyddai'r Eglwys Gatholig byth yn gwerthu'r Fatican, anodd iawn yw dychmygu'r Presbyteriaid yn ildio eu gafael ar Drefeca oherwydd ei gysylltiadau â hanes Cristnogaeth yng Nghymru.

Cafwyd cyfle i grwydro'r gerddi, a'r ffynnon a hen gartref Howell Harris a'r wardeniaid a wasanaethodd yno ers y saithdegau. Cyfle i gofio am y Parchg Gwilym Ceiriog Evans a Gethin Rhys ifanc, a hefyd Mair Jones. Ond trist yw cyflwr presennol y tŷ.

Yn ystod yr ychydig oriau y buom yn Nhrefeca soniodd sawl un sut yr oedd yr awyrgylch gwledig yn gymorth i deimlo a phrofi tawelwch, llonyddwch a thangnefedd yn y galon.



Wedi cinio ymlaen i gapel y Plough yn Aberhonddu a chroeso twymgalon gan yr aelodau. Yn ystod yr oedfa clysom hanes y capel a synnwyd pawb gan brydferthwch y gwaith coed, y nenfwd trawiadol a'r organ bib. Diolch yn fawr i'r Parch Jeff Williams am drefnu'r oedfa a chyfraniad teimladwy Elwyn Moseley, oedd yn aelod yno yn ei arddegau a'i dad, Luther Moseley, yn weinidog ar y capel am nifer o flynyddoedd.



Yno hefyd y priodwyd Elwyn a'r diweddar Annick ar 20 Ebrill 1968.

Yna, wedi paned a danteithion pellach, troi am adre' a wnaeth y pererinion modern ym moethusrwydd bws mini a cheir.

***Eirian a Gwilym Dafydd***



# *Trosglwyddo'r Fantell*

***Alun Tudur***

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf rwyf wedi bod yn darllen cofiannau gweinidogion oedd yn byw oddeutu 1800 - 1840. Cyfnod yn ein hanes oedd rhwng cyffro'r Diwygiad Methodistaidd a thyfiant mawr Cristnogaeth yng Nghymru ac "oes aur" Ymneilltuaeth yn ystod oes Fictoria. Hyd yn hyn rwyf wedi darllen cofiannau: Lewis Rees (1710 - 1800), William Williams o'r Wern (1771 - 1840), John Roberts, Llanbrynmair, yr hynaf (1767 - 1834), Azariah Shadrach (1774 - 1844), Michael Roberts (1780 - 1849), Pwllheli, Cadwaladr Jones (1783 - 1867), Yr Hen Olygydd, David Williams, Troedrhiwdalar (1779 - 1874), a Lewis Powell, (1788 - 1869).
Y mae bwriad gennyf i ddarllen nifer o gofiannau cymeriadau eraill o'r un cyfnod.

## Paham?

Mae nifer o resymau pam fy mod yn gwneud hyn, ond y ddau brif reswm yw hyn. 1. Rwyf eisiau gwybod pwy o'r bobl hyn oedd yn adnabod ei gilydd. Pwy ohonynt oedd yn perthyn i'w gilydd trwy waed a thrwy briodas? Meibion a merched pwy briododd â'i gilydd? Oherwydd mae gen i ddamcaniaeth! Er y pwyslais hanesyddol sydd wedi ei roi ar y gwahaniaethau enwadol fu, rwy'n meddwl mai un mudiad oedd Ymneilltuaeth yng Nghymru. 2. Hefyd yn y cyfnod hwn, rhwng dyweder, 1790 a 1850, y plannwyd cannoedd o eglwysi yng Nghymru, gan y bobl hyn a esgorodd ar lwyddiant anghymharol yn hanes Cristnogaeth yn ail hanner yr 19eg ganrif.



Beth oedd eu dulliau wrth blannu eglwysi? Sut oeddent yn mynd ati i sefydlu cynulleidfaoedd newydd? Bellach rydym wedi cyrraedd cyfnod arall lle y mae angen plannu eglwysi bach newydd. Wrth i eglwysi gau mor chwim, y mae ardaloedd yn bodoli lle nad oes dim tystiolaeth Gristnogol ynddynt. Rhaid inni ymateb yn gyflym neu adael i rannau o Gymru fod mewn tywyllwch ysbrydol.

A allwn ni ddysgu unrhyw beth o'r gorffennol gan y Cristnogion hynny

a fu'n plannu a thyfu eglwysi mor llwyddiannus, fydd yn ein cynorthwyo nawr?



**Ieuenctid**

Wrth ddarllen y cofiannau hyn, un peth a ddaw i'r amlwg yw bod polisi yn yr eglwysi o drosglwyddo mantell arweinyddiaeth i ddwylo pobl ifanc. Roeddent yn astudio, gwrando a siarad gyda'u hieuenctid, i weld a oedd doniau ganddynt y gellid eu defnyddio i wasanaethu'r Arglwydd. Yna, o weld potensial mewn unigolyn, yr oeddent yn ei annog i ddatblygu'r doniau hynny o fewn i'r gynulleidfa. Dyma ddigwyddodd i Williams o'r Wern, Cadwaladr Jones a'r gweddill.

**Mentora**

Mae'n rhaid inni wneud hyn ar fyrder heddiw yn ein heglwysi, gan annog aelodau iau i ddatblygu eu doniau ysbrydol, i weddïo, arwain addoliad ac astudiaeth Feiblaidd, gan ddatblygu eu gweledigaeth dros achos Iesu Grist. Un o'r gwersi pwysicaf rwyf wedi ei ddysgu yw mai rhan allweddol o waith arweinydd yw camu yn ôl a throsglwyddo'r awenau i rai iau, gan eu mentora a'u hamddiffyn. Os na wnawn hyn bydd ein heglwysi, yn anochel, yn dirwyn i ben o fewn hanner cenhedlaeth.

**Eliseus**

Yr esiampl enwocaf o hyn yn y Beibl yw hanes Elias yn trosglwyddo ei fantell yn llythrennol i Eliseus yn 1 Brenhinoedd 19:15-21.

Gorchmynnodd Duw iddo wneud hynny er mwyn i Eliseus broffwydo yn ei le. Trowch at y bennod hon nawr a darllenwch yr hanes. Gofynnwch i chi eich hunain,

> *"a oes rhywun yn ein cynulleidfa ni y dylwn eu herio i wasanaethu'r Arglwydd".*

Os oes, siaradwch gyda hwy, dywedwch wrthynt eich bod yn gweld potensial ynddynt, gan eu hannog i gymryd rhan mewn oedfaon ac i arwain. Peidiwch â bod yn swil, oherwydd pobl fel chi y mae'r Arglwydd yn eu defnyddio i feithri cenhedlaeth newydd sy'n caru a gwasanaethu'r Arglwydd.

## Myfyrdod Air-pod 2

Yn ddiweddar roeddwn yn gwylio fideo o berson yn fforio ar draeth yn Rio de Janeiro. Ar derfyn min nos roedd yn cribinio'r tywod wrth chwilio am drysorau roedd pobl wedi eu colli yn ystod y dydd. Roedd yn ffeindio pob math o bethau ac yn eu plith roedd Apple air-pod, sef un o'r pethau hynny y mae pobl yn eu rhoi yn eu clustiau i wrando ar gerddoriaeth.



Yr hyn sy'n handi gyda'r teclynnau hyn yw fod cas bychan gwyn i'w cadw ac ynddo y mae lle pwrpasol ar eu cyfer. Mae'r newyddion da Cristnogol yn ein gwahodd i ddod at Dduw. Mae yna ofod wedi ei deilwra ar ein cyfer ym mynwes Duw. Mae'r Iesu yn gwahodd pobl o bob lliw a llun ato gan ddweud,

"Dewch ata i, bawb sy'n cael eich llethu gan feichiau trwm, a rhof i orffwys i chi. **Mathew 11:28**




Mae'r gwahoddiad llawn cysur hwn i bob un. Dach chi'n gweld, mae lle pwrpasol i bob un gyda Duw.

Mae yna ddyfyniad enwog gan Awstin Sant sy'n dweud

**"Diorffwys ydwyf hyd oni orffwysaf ynot ti."**

Yr unig le da ni'n ffitio, yr unig le y gallwn gyrraedd adra gan ffeindio gorffwys go iawn yw gyda Duw. Ef yw ein cartref. Yr amod yn syml yw credu yn Iesu ac yn yr hyn a gyflawnodd,

"Fi ydy'r ffordd," atebodd Iesu, "yr un gwir a'r bywyd. Does neb yn gallu dod i berthynas gyda Duw y Tad ond trwof fi." **Ioan 14:6**

Mae bod yn aelod o deulu Duw yn fendith aruthrol, bendith yw nad ydym yn ei gwerthfawrogi hanner digon. Bendith o fod yn ffitio,o fod yn aelod o gorff Crist.

Tyrd i mewn mae'r bugail da yn galw arnat.

# Cyfarfodydd Angor

BAY CHURCH
GRANGETOWN

## *Comisynu Gwilym Jeffs yn Arweinydd yn 'Angor'*



Pnawn Sul 28ain o Fedi cafwyd oedfa yn y Bay Church, Grangetown i gomisiynu Gwilym Jeffs yn arweinydd Angor Grangetown, gan Angor / Ebeneser / Undeb yr Annibynwyr. Mae Gwil wedi ei ryddhau o'i swydd fel athro, am ddau ddiwrnod yr wythnos, er mwyn ehangu'r gwaith da mae Angor yn ei wneud yn ardal Grangetown.



Mor braf oedd gweld yr adeilad yn llawn dop o bobl a phlant o bob oed, a theimlo cynhesrwydd y croeso a'r bwrlwm. Braf iawn oedd gweld teuluoedd a phlant bach mor amlwg yn y gweithgareddau, a gwych hefyd gweld cynrychiolaeth gref o Ebeneser wedi ymuno i gefnogi Gwil a'r tîm yn eu gwaith.



Cafwyd oedfa hapus ac emosiynol wrth i ni weddïo am fendith Duw ar y gwaith. Darllenodd Cynan o lyfr Jeremeia 20:1-18, cyn i Alun bregethu ar yr adnodau. Soniodd Alun ei fod yn gobeithio na fydd Gwil a'r tÎm yn teimlo'n unig. Fel roedd neges Duw yn llosgi ym mol Jeremeia, mae gennym ninnau hefyd neges i'w rhannu, sef gras, cariad a maddeuant. Holodd "ydy'r neges yn ein tanio ni?" Os felly, bydd Duw yn ein defnyddio ni.

Cafodd Gwil ei holi gan Cynan a soniodd am ei daith ysbrydol at fod yn arweinydd Angor. Dywedodd mai arweinydd petrus oedd ond ei fod yn gweld llaw Duw ar ei waith a'i fywyd. Dangosodd y ddolen at y llythyr gweddi a gofynnodd i ni sôn am y gwaith. Pwysleisiodd bod croeso yn Angor i bawb sy eisiau dod i adabod Iesu Grist.

Diolchwn i Dduw am ei law ar waith Angor a gweddïwn am fendith Duw ar y fenter i'r dyfodol.

***Janette Jones***





# Calendr

Cynhelir oedfa'r bore yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd, Old Church Rd, CF14 1AD.

Cynhelir oedfa'r pnawn yng nghapel y Methodistiaid, Penlline Rd, CF14 2AA.

Cynhelir Angor ar yr ail a'r pedwerydd Sul o bob mis yn Bay Church, Corporation Rd, Grangetown am 4:00yp.

Pob nos Lun am 7.30 y.h. cynhelir y cwrdd gweddi yng nghapel y Methodistiaid ac ar Zoom. Dolen yn yr e-bost wythnosol.

## Suliau Hydref

**5 Hydref** - 10:00yb yn CEN a 3:00yp yn CEF - Alun Tudur
**12 Hydref** - 10:00yb yn CEN a 3:00yp yn CEF (Cyfarfodydd Blynyddol) - Cynan Llwyd
**19 Hydref** - 10:00yb yn CEN - Llan Llanast i bawb. 'Diolch am iechyd'. 3:00yp yn CEF - Alun Tudur
**26 Hydref** - 10:00yb yn CEN a 3:00yp yn CEF - Eleri Joyce, Caernarfon

## Suliau Tachwedd

**2 Tachwedd** - 10:00yb yn CEN a 3:00yp yn CEF - Alun Tudur
**9 Tachwedd** - 10:00yb yn CEN a 3:00yp yn CEF - Alun Tudur
**16 Tachwedd** - 10:00yb yn CEN - Llan Llanast. 'Diolch am fwyd a diod'. 3:00yp yn CEF - Alun Tudur
**23 Tachwedd** - 10:00yb yn CEN a 3:00yp yn CEF - Alun Tudur
**30 Tachwedd** - 10:00yb yn CEN a 3:00yp yn CEF - John Roberts BBC

**Ebeneser - "Hyd yma y cynorthwyodd yr ARGLWYDD ni."**

## PERERINDOD 14EG O FEDI 2025 I DREFECA A CHAPEL Y PLOUGH, ABERHONDDU



Cadair Howell Harris



Malcolm Thomas ac
Elwyn Moseley



Cadair Thomas Charles



Cadair William Williams




Eingion Thomas Lewis,
Talyllychau - gof ac emynydd




Gwaith llaw ysgol Sul
Capel y Plough



Criw y trip tu allan i Gapel y Plough



Jeff Williams, Elwyn Moseley
ac Alun Tudur